

Cylch gorchwyl y Comisiynwyr

- a. Sicrhau bod holl argymhellion yr adolygiad o ddiwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn gynaliadwy erbyn y terfynau amser a bennir yn yr adroddiad.
- b. Sefydlu a goruchwyllo uwch dîm rheoli a phrosesau cysylltiedig nad ydynt wedi'u handwyo gan y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad; ac fel cam cyntaf, penodi Prif Swyddog Tân ac, yn ôl yr angen, uwch staff eraill y credir eu bod yn fwyaf tebygol o gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at adferiad yr Awdurdod Tân ac Achub.
- c. Sefydlu a gweithredu proses i nodi achosion o gwynion cyflogaeth a oedd yn codi yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad a allai fod wedi cael sylw amhriodol a/neu annheg am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad; ac i sicrhau bod yr achosion hynny'n cael eu hailagor a'u hailystyried, gan arwain at ganlyniad teg a chyfiawn.
- d. Sicrhau bod holl argymhellion adolygiadau thematig y Prif Gyngorydd Tân ac Achub yn cael eu gweithredu'n llawn, cyn gynted â phosibl ac mewn partneriaeth gymdeithasol ystyrlon.
- e. Gwneud trefniadau ar gyfer gostyngiad sylweddol a pharhaus yn nifer y galwadau tân y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymateb iddynt sy'n alwadau ffug.
- f. Datblygu cynigion ar gyfer system lywodraethu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn y dyfodol a fydd yn fwyaf tebygol o leihau'r risg o fethiannau tebyg pellach.
- g. Cyflawni swyddogaethau eraill yr Awdurdod Tân ac Achub a'i aelodau, fel y nodir mewn statud ac yn rheolau sefydlog yr Awdurdod Tân ac Achub.
- h. Cynghori Llywodraeth Cymru ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r uchod, ac ar y potensial i ddod â'r ymyrraeth i ben.
- i. Ymgymryd â'u holl waith yn ysbryd llawn partneriaeth gymdeithasol, a thrwy feithrin cysylltiadau'n barhaus ac yn effeithiol â staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac â'u hundebau llafur a chyrrff cynrychioliadol eraill.